# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## ABBE Diploma mewn Cydlynu Ã”l-osod a Rheoli Risg Lefel 5



**Yn gryno**

Mae Cyfrif Dysgu Personol yn fenter newydd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ffordd hyblyg a rhad ac am ddim o ddysgu. Bydd y fenter yn rhoi cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan amser, rhad ac am ddim sy'n cynnig ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu i gyd-fynd â'u ffordd bresennol o fyw.

Mae’r cymhwyster hwn wedi’i gynllunio ar gyfer unigolion sydd eisoes wedi cymhwyso mewn rheoli prosiect safle/adeilad i ennill cymhwyster mewn cydgysylltu prosiectau a rheoli risg prosiectau ol-osod domestig, yn ogystal â darparu llwybr i’r rhai sydd eisoes yn gweithio ym maes ôl-osod ond heb gymwysterau priodol.

Bydd y cymhwyster yn rhoi’r wybodaeth a’r sgiliau penodol i ddysgwyr allu cyflwyno prosiectau ôl-osod domestig i’r safonau a nodir yn PAS2035. Mae rôl y Cydlynydd Ôl-osod yn orfodol ar gyfer pob prosiect a wneir ar y cyd a PAS2035 a gefnogir yn llawn gan Lywodraeth Cymru a TrustMark.

**Gofynion Mynediad**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cewch eich asesu yn seiliedig ar eich gwybodaeth gyfredol, a gellir gofyn unrhyw gwestiynau a chynnal trafodaeth broffesiynol yn ystod eich amser eich hun. Er mwyn ymgymryd â'r NVQ hwn bydd angen i chi feddu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol yn y diwydiant adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.

Mae'n rhaid i ddysgwyr feddu ar gymhwyster Lefel 4 mewn pwnc sy'n ymwneud ag adeiladu fel pensaernïaeth, tirfesur, peirianneg neu reoli safle adeiladu, neu Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC) ar Lefel 3 neu uwch a bod ag o leiaf 5 mlynedd o brofiad mewn pwnc sy'n ymwneud â rheoli neu oruchwylio prosiectau adeiladu ac adeiladu domestig.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr feddu ar lefel sylfaenol o lythrennedd, yn gyflogedig a bod mewn sefyllfa lle gellir arsylwi gwaith sy'n mynd rhagddo. Mae'n bosibl y bydd angen sgiliau TG sylfaenol arnoch chi, ond nid yw hynny'n hanfodol

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bwriad rhaglen PLA yw darparu cyngor ac arweiniad o safon ar yr yrfa i gyfranogwyr cyn, yn ystod ac wedi eu dysgu.

Cyn i chi gael eich ymrestru ar eich cwrs sydd wedi'i ariannu gan PLA, bydd cynllun dysgu unigol yn cael ei drafod gyda chi er mwyn sicrhau bod y dysgu cywir wedi cael ei ystyried.

Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth gyffredinol ar y pynciau canlynol:

addysg ffurfiol neu gymwysterau mewn meysydd perthnasol
profiad blaenorol o fewn y diwydiant neu faes
dyheadau gyrfa yn y dyfodol
ymrwymo i'r amser sydd ei angen